


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Rhagfyr 14 2021

**Presennol :- Cyngorwyr :** Malcolm Humphreys, Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Richard Williams, Gwilym Jones, Jason Humphreys, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Carol Hayes, Linda Wyn Roberts, Nia Jeffreys, Dr Simon Brooks, Dr Melfyn Edwards, Ian Wyn Jones, Alwyn Gruffydd, Bethan Rees Jones

Marian Roberts (Clerc)

**189.12.21 Ymddiheuriadau :- dim**

**Absennol :-** Cyng Stuart Nashir-Hallard

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac estynodd y Cadeirydd groeso arbennig i Inspector Lisa Jones a Sgt Simon Barlow o Heddlu Gogledd Cymru a oedd wedi eu gwahodd i'r cyfarfod i annerch y Pwyllgor Llawn.

### Anerchiad gan Inspector Lisa Jones a Sgt Simon Barlow o Heddlu Gogledd Cymru.

Dechreuodd Inspector Lisa Jones drwy ddiolch am y gwahoddiad a mynegi ei bod yn hapus iawn i ddod i gyfarfod aelodau'r Cyngor Tref. Eglurodd mai hi yw Arolygydd De Gwynedd ers dwy flynedd a hanner a'i bod yn wreiddiol o Harlech tra roedd Sgt Simon Barlow yn gweithio fel pennaeth PCSOs yr ardal a'i fod yntau o ardal y Bala. Roedd y ddau ohonynt yn adnabod yr ardal yn dda er bod yr ardal yn un enfawr sy'n cynnwys Dwyfor a Meirionnydd. Maent ar gael ar lein neu ar y ffôn ( bydd y Clerc yn rhannu eu manylion gyda'r Cyngorwyr) ac yn barod iawn i gysylltu.

Roedd y ddau yn cyfaddef ei bod yn amser anodd iawn; mae wedi bod yn haf prysur iawn; tensiynau oherwydd cyfyngiadau Cofid; cynnydd ofnadwy ym mhoblogaeth yr ardal dros gyfnod yr haf ac er hyn i gyd does dim newid wedi bod yn lefel staffio yr Heddlu yn lleol. Mae rhwng 7 a 12 swyddog o'r Heddlu ar gael ar yr un amser i wasanaethu holl ardal Dwyfor a Meirionnydd. Yn aml maent yn gorfod tywys drwgweithredwyr i Gaernarfon ac i Ysbyty Gwynedd a gwelwyd cynnydd o 30% i 40% mewn troseddau ers y Pandemig. Maent yn gweithio'n agos iawn efo'r gwasanaeth Ambiwlans pan geir achos o rhywun yn mynd ar goll neu achos o argyfwng yn ymwneud â iechyd meddwl. O ganlyniad i hyn mae'r gwasanaeth Heddlu yn dibynnu llawer iawn ar gefnogaeth gwasanaeth y PCSOs gan mai nhw yn aml iawn yw prif bwynt cyswllt y cyhoedd.

Rhoddwyd cyfle i'r Cyngorwyr ddatgan eu pryderon ac i holi'r ddau swyddog. Roedd yr un pryderon yn gyffredin ymysg y Cyngorwyr ac yn cynnwys pryderon am y canlynol :-

- Gor-yrru drwy Morfa Bychan
- Twristiaid cynyddol yn straen ar yr ardal ac yn creu problemau yn lleol
- Ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gor-yrru ar draeth Morfa Bychan
- Ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gor-yrru ar faes parcio LLyn Bach a Chanolfan Glaslyn
- Y camera gor-yrru ddim yn y lleoliad iawn gyferbyn â Bryn Eirian
- Parcio ar balmentydd y Stryd Fawr
- Llwyth traffic ar y Stryd Fawr
- Fandaliaeth yn llochesi'r Stesion ers i'r Rheilffordd gau er mwyn atgyweirio
- Diffyg presenoldeb yr Heddlu a PCSOs ar y Stryd
- Oes modd cael mwy o " Special Constables"?

Ymateb y ddau Swyddog :-

- Gan fod adnoddau'r Heddlu yn brin maent yn dibynnu ar Gyngor Gwynedd i reoli parcio ar y stryd ac ar draeth Morfa Bychan.
- Mae lefelau staffio'r Heddlu yn lleol wedi aros yr un fath ers 2019 ac yn bell o fod yn ddigonol.
- Dydi lefel staffio 2019 ddim yn addas ar gyfer ardal wledig fel Meirion-Dwyfor.
- Maent wedi gwneud cais i godi'r lefelau staffio yn enwedig dros gyfnod prysur yr haf.
- Maent am gyfarfod gyda Barry Davies i drafod sefyllfa Traeth Morfa Bychan gan nodi fod cau y giât yn gynharach yn un ffordd hawdd o osgoi problemau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yno.
- Mae gwasanaeth yr Heddlu yn dibynnu llawer ar gamerau CCTV i ddatrys troseddau.
- Nodwyd fod staff y Gwasanaeth Morwrol wedi cael camerau ar eu cerbydau fel arf yn erbyn ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Roedd y Cynghorwyr yn mynegi eu diolch i'r ddau Swyddog am eu cyfraniad a llongyfarchwyd Sgt Simon Barlow, sydd yn dysgu Cymraeg, am annerch y Pwyllgor drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y Pwyllgor yn diolch iddynt am eu gwaith yn y gymuned a llongyfarchwyd Sgt Simon Barlow am gael y syniad o drefnu'r cynllun Panad efo PCSO – cynllun sydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn effeithiol iawn. Rhoddwyd canmoliaeth i'r ddau PCSO lleol Paula Stewart a Mark Hughes sydd yn amlwg iawn yn eu gwaith ym Mhorthmadog ac am eu presenoldeb mewn achlysuron cyhoeddus megis sesiynau brechu.

Diolchodd y Cadeirydd unwaith eto i'r ddau swyddog a gadawsant y cyfarfod.

## **Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref**

### **190.12.21. Adroddiad y Cadeirydd.**

Dywedodd y Cadeirydd fod tymor y Nadolig wedi cyrraedd a phawb yn edrych ymlaen gael seibiant ac i gael treulio amser efo teulu ac anwyliaid dros y gwyliau. Roedd hi'n braf gweld goleuadau'r Nadolig ar goed y Parc ac ar y Stryd Fawr ac roedd yn gobeithio y gellir dychwelyd i'r drefn arferol y flwyddyn nesaf fel y gall cynrychiolaeth deg o'r Cynghorwyr Tref gyfrannu at weithgareddau ar noson goleuo'r goeden a siopa hwyr.

Roedd Stormydd Arwen a Barra wedi achosi difrod yn lleol a rhai o drigolion yr ardal wedi bod heb drydan. Ar ôl mis Tachwedd a Rhagfyr gwlyb iawn roedd y Cadeirydd yn pryderu am yr holl ddŵr yn yr afonydd sy'n bwydo aber afon Glaslyn.

Dywedodd fel yr oedd sefyllfa'r feirws, Omicron yn arbennig, yn frawychus iawn yn yr ardal a'i bod yn argoeli'n ddrwg iawn ar gyfer mis Ionawr. Awgrymodd felly y byddai cyfarfod mis Ionawr yn cael ei gynnal yn rhithiol er lles pawb. Bydd yn asesu'r sefyllfa yn agosach i'r dyddiad a bydd y Clerc yn hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid i'r trefniadau.

Dywedodd fod rhaglen heno yn un hir ac roedd yn gwneud apêl i'r Cynghorwyr i gydweithio er mwyn dod i benderfyniad ar faterion ar y rhaglen. Roedd yn pwysleisio nad oedd gan y Cyngor Tref fel corff unrhyw reolaeth nac awdurdod dros gyllideb na rheolaeth corff cyhoeddus arall o fewn y dalgylch.

### **191.12.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

#### **➤ Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Tachwedd 9 2021**

Nodwyd y cywiriadau canlynol :-

169.11.21 - newid "creigiau Tremadog" i "Sunnyside" a chywirow sillafiad enw'r Cyng Alwyn Gruffydd

182.11.21 – newid "Nodi " i "Ail-ddatgan"

#### **➤ Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Tachwedd 30 2021**

Nodwyd y cywiriadau canlynol :- Fod Cyng Dr Simon Brooks wedi ymddiheuro ac mai Kassel Kerbs, nid lloches bws , fydd yn cael eu gosod y tu allan i Siop Spar, Tremadog.

Cafwyd yn gywir yn dilyn y cywiriadau yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

### **192.12.21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**

**Cyng Dr Simon Brooks – 199.12.21 – Nation.Cymru a 228.12.21 LLYWODRAETH CYMRU,** Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth ail gartrefi

**Cyng Llywelyn Rhys - 231.12.21 ANDREW BASFORD – CYFOEDD NATURIOL CYMRU –** Diweddariad perygl llifogydd

**Cyng Carol Hayes - 216.12.21 Y GANOLFAN a 219.12.21 Y GANOLFAN ,** Ymateb Y Ganolfan i 173.11.21 a 174.11.21

**Cyng Alwyn Gruffydd – 205.12.21 – HOWARD HUWS – CYLCH YR IAITH**

### **Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd**

**193.12.21 Cynnig Cyng Dr Simon Brooks :- dewis cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest.**

**Penderfynwyd :-** dewis Cyng Dr Melfyn Edwards fel cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio. Diolchwyd i'r Cyng Dr Melfyn Edwards am dderbyn y cyfrifoldeb a bydd y Clerc yn hysbysu'r ysgol o'r newid.

**194.12.21 Cynnig Cyng Jason Humphreys :- dewis cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn.**

**Penderfynwyd :-** dewis Cyng Llywelyn Rhys fel cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn yn ôl cynnig ffurfiol Cyng Jason Humphreys. Diolchwyd i'r Cyng Llywelyn Rhys am dderbyn y cyfrifoldeb a bydd y Clerc yn hysbysu'r ysgol o'r newid.

**195.12.21 Cyng Aled Griffith :- Trafod arwyddion Helo Port**

Cytunwyd fod rhai o'r arwyddion wedi eu gosod mewn safle peryglus i gerddwyr; fod amryw wedi torri yn barod; a'u bod yn mynd a llawer o le ar balmentydd cul. Nodwyd fod yn rhaid gosod arwyddion o'r fath ar uchder o 2.1m yn ôl rheoliadau swyddogol a bod arwyddion Helo Port yn llawer rhy isel.

**Penderfynwyd :-** y Clerc i ysgrifennu at swyddogion Helo Port i'w hysbysu o'r rheol yma ac i ofyn iddynt ail-osod yr arwyddion ar yr uchder cywir yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**196.12.21 Cyng Dr Melfyn Edwards :- Trafod dirywiad cors Borth y Gest**

Eglurodd Cyng Dr Melfyn Edwards fel yr oedd llanast a gwastraff adeiladu o gyfeiriad Garej Glan Aber yn cael ei gario i adeiladu ffordd i ganol y gors. Disgrifiodd hyn fel "fly-tipping" difrifol ac fel "fandaliaeth amgylcheddol". Roedd y gwastraff yn amharu ar lefel y dŵr ac yn achosi pryder ynglyn â llifogydd.

**Penderfynwyd :-** y Clerc i ysgrifennu at Adran Cynllunio ac at Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd (a chopi hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru) i nodi'r pwyntiau uchod ac i ofyn :-

- Beth sy'n digwydd yma?
- Ydi'r rheolau yn cael eu dilyn?
- Ydi'r canllawiau ynglyn a gwastraff adeiladu yn cael eu dilyn?
- Beth ydi'r oblygiadau amgylcheddol?

yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**197.12.21 Cyng Richard Williams – Parc, Porthmadog - llythyru Cyngor Gwynedd i holi am raglen cynnal a chadw rheolaidd.**

Eglurodd Cyng Richard Williams fel yr oedd yn bryderus am gyflwr gwael y Parc ac nad oedd y Parc yn adlewyrchiad da o'r dref oherwydd diffyg gofal a chynhaliaeth.

**Penderfynwyd** :- y Clerc i ysgrifennu at Haydn Jones, Glandon , Pwllheli i holi beth yw rhaglen cynnal a chadw'r parc ac i yrru copi hefyd i Steffan Jones yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**198.12.21 Cyng Selwyn Griffiths – Trafod cynigion Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 30.11.21**

**Penderfynwyd** :- gweithredu ar benderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

**199.12.21 Cyng Richard Williams – llythyru Gareth Wyn Williams, newyddiadurwr**

**Nation.Cymru i holi pam na chafodd enw Cyngor Tref Porthmadog ei gynnwys yn y rhestr o Gynghorau oedd wedi cefnogi ymgyrch Cymdeithas yr Iaith trwy arwyddo eu llythyr at Mark Drakeford fel rhan o'r hymgyrch 'Nid yw Cymru ar werth'.**

**Penderfynwyd** :- gweithredu ar y cynnig a gyrru copi hefyd at Gymdeithas yr Iaith.

**200.12.21 Trafod cynigion Pwyllgor Cyllid ac Eiddo am y Praesept 2022-2023**

(Ymddiheurodd Cyng Malcolm Humphreys am orfod gadael y cyfarfod.)

Cynigiodd Cyng Selwyn Griffiths fod y Praesept yn aros yr un fath eto y flwyddyn nesaf. Cynigwyd gwelliant gan y Cyng Alwyn Gruffydd y dylai'r Praesept godi'r un fath â chwyddiant ( 3.8% ym mis Hydref 2021) i osgoi codiad sylweddol yn y blynyddoedd nesaf ac eilwyd gan y Cyng Llywelyn Rhys. Eglurodd y Clerc o'r tabl oedd wedi ei ddsbarthu y byddai codiad o 3% yn y Praesept yn golygu codiad o £29.83 ar Dreth Cyngor eiddo Band D. Nodwyd y disgwylir incwm meysydd parcio sylweddol eleni a bod arian wrth gefn yn y Cyfri Cadw.

**Penderfynwyd** :- derbyn y cynnig gwreiddiol gan Cyng Selwyn Griffiths.

**201 12.21 Cyng Carol Hayes - Cynnig ail-gysylltu gyda Premier Inn, Porthmadog ynglŷn a llechen Tŷ Moelwyn.**

**Penderfynwyd** :- gweithredu ar y cynnig.

**202.12.21 Cyng Carol Hayes - Adroddiad - Gwersi Cymraeg (Medi > Rhagfyr 2021).**

Cyflwynodd y Cyng Carol Hayes Adroddiad manwl o hanes y dosbarth Cymraeg. Roedd yn mynegi diolch diffuant iawn i'r Clerc am drefnu,hysbysebu, cydlynu, llungopïo gwersi ac am bob cefnogaeth yn ystod y tymor gwersi. Roedd y gwersi wedi bod yn llwyddiant a nododd bod galw mawr am wersi Cymraeg o'r math yma. Roedd yn argymhell cwrs 10 wythnos i ddechreuwyd os bydd y Cyngor yn ystyried cwrs arall yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** :- derbyn yr adroddiad gyda diolch.

**203.12.21 Cyng Carol Hayes - Cynnig bod y Cyngor yn anfon llythyr o ddiolch i Faris Raouf am ei fodlonrwydd i gynrychioli Cyngor Tref Porthmadog ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn**

**Penderfynwyd** :- gweithredu ar y cynnig.

**204.12.21 Cyng Jason Humphreys – Trafod Perchnogaeth Y Cob a Cob Crwn**

Roedd y Cyng Jason Humphreys yn awyddus i wybod pwy sydd â chyfrifoldeb dros y Cob a'r Cob Crwn gan fod bodolaeth a dyfodol tref Porthmadog yn dibynnu ar ddiogelwch a chynhaliaeth y ddau strwythur yma. Eglurwyd fel yr oedd statws y Cob wedi newid yn dilyn adeiladu'r ffordd osgoi a bod y cyfrifoldeb wedi newid o ddwylo Llywodraeth Cymru i ddwylo Llywodraeth Leol Gwynedd. **Penderfynwyd** :- y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi am y sefyllfa ac i ddechrau'r broses o wneud "Land Search".

**Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** *Dyddiad cau Rhaglen Ionawr 11 2022 = Ionawr 1af 2022 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Jason Humphreys** :- Cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.
- **Cynghorwyr Llywelyn Rhys a Selwyn Griffiths** yn adrodd yn ôl ar gyfarfod gyda Mabon ap Gwynfor a Liz Saville-Roberts ar 20.12.21 ynglyn â mater cau Banc Barclays, Porthmadog.

**Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb** (copi ynghlwm).  
**Penderfynwyd** :- adolygu a golygu'r rhestr yng nghyfarfod mis Ionawr.

### **GOHEBIAETH :**

**205.12.21 HOWARD HUWS, Cylch yr Iaith**  
**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**206.12.21 REBECCA JONES, Cais i ymateb i'r Adroddiad Adolygu Drafft – Cynllun Datblygu Lleol**  
**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**207.12.21 , Adroddiad Adolygu Drafft – Cynllun Datblygu Lleol**  
52 tudalen – copi electronig yn unig  
**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**208.12.21 PYRS WILLIAMS, Clwb Chwaraeon**  
Oherwydd amheuan ynglyn â tharddiad y llythyr gydag aelodau o'r Pwyllgor yn cwestiynu ei ddilysrwydd cytunwyd nad oedd gan y Pwyllgor hawl i'w drafod.  
**Penderfynwyd** :- gwrthod y llythyr yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

**209.12.21 JOHN GRIFFTHS A.S., Ymgynghoriad;ymchwiliad i ail gartrefi**  
**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**210.12.21 DAFYDD GIBBARD, Ymateb i 109.9.21 arafwch ymateb**  
Trafodwyd materion 210,211,220,221 gyda'i gilydd yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys.  
**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**211.12.21 NIA JEFFREYS, Ymateb i 109.9.21 arafwch ymateb**  
**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth  
(Ymddiheurodd y Cyng Nia Jeffreys am orfod gadael y cyfarfod.)

**212.12.21 STEFFAN JONES, Ymateb i 176.11.21 dropped kerb**  
Roedd y Cyng Richard Williams wedi cael cyfarfod gyda Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor, fore heddiw (14.12.21) i drafod y broblem ac er mwyn iddo weld drosto'i hun yr hyn y mae'r Cyngor

wedi cwyno amdano. Bydd yn gyrru adroddiad o'r cyfarfod maes o law.

**Penderfynwyd :-** y Clerc i gysylltu gyda Mynediad Dwyfor i ofyn am gefnogaeth ar y mater.

**213.12.21 STEFFAN JONES**, Ymateb i 182.11.21 Toiledau

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**214.12.21 STEFFAN JONES**, Ymateb i 169.11.21 Mainc Sunnyside

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a mynegodd y Cyng Alwyn Gruffydd ei ddiolch am gefnogaeth y Clerc ar y mater.

**215.12.21 STEFFAN JONES**, Ymateb i 168.11.21 Goleuadau stryd

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac aros am yr adroddiad.

Gadawodd Cyng Carol Hayes y cyfarfod

**216.12.21 Y GANOLFAN**, Ymateb Y Ganolfan i 173.11.21 a 174.11.21

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac aros am ymateb pellach.

Dychwelodd Cyng Carol Hayes i'r cyfarfod

**217.12.21 EBOST I SCOTTISH POWER**, Cais i gau cyfri Capel Salem 14.2.21

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**218.12.21 SCOTTISH POWER, Ad-daliad**

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

Gadawodd Cyng Carol Hayes y cyfarfod

**219.12.21 Y GANOLFAN**

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ateb y llythyr yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

Gadawodd Cyng Jason Humphreys y cyfarfod.

Dychwelodd Cyng Carol Hayes i'r cyfarfod.

**220.12.21 CYNGOR LLANDYGAI**, Copi o lythyr at Dafydd Gibbard – arafwch ymateb

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**221.12.21 CYNGOR LLANDYGAI**, Ymatebion Cyngor Cymunedau Gwynedd

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**222.12.21 UN LLAIS CYMRU**, Rheolau etholiadau lleol Cymru 2021

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**223.12.21 EURYN WILLIAMS C.G.**, Ymateb i 178.11.21 Llwybr Peniel

EURYN WILLIAMS C.G., Dogfen Llwybr Peniel

EURYN WILLIAMS C.G., Map Llwybr Peniel

EURYN WILLIAMS C.G., Dogfen Gorchymyn Llwybr Peniel

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**224.12.21 ADRIAN DAVIES**, Cau Banc Barclays, Porthmadog

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth. Bydd y Cynghorwyr Llywelyn Rhys a Selwyn Griffiths yn mynychu cyfarfod gyda Mabon ap Gwynfor a Liz Saville-Roberts ynglyn â'r mater yma ar 20.12.21 a

byddant yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod y Pwyllgor ar Ionawr 11.

**225.12.21 ALYS LLOYD JONES, Grant oed gyfeillgar**  
**Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth**

**226.12.21 JULIE JAMES , Llifogydd**  
**Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth**

**227.12.21 NESTA JONES , Apêl Eisteddfod yr Urdd 2022**  
**Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth** a'r Clerc i'w chyfeirio at y ffurflen gais briodol i wneud cais am Nawdd Ariannol ar gyfer mis Chwefror.

Gadawodd Cyng Dr Simon Brooks y cyfarfod.

**228.12.21 LLYWODRAETH CYMRU, Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth ail gartrefi**  
**LLYWODRAETH CYMRU, Y Ddogfen Ymgynghori (23 tudalen copi electronig yn unig)**  
Gofynwyd i'r Cyng Alwyn Gruffydd lenwi'r holiadur ar ran y Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths. Cytunodd y Cyngorydd Alwyn Gruffydd i ymgymryd â'r gwaith.  
Dychwelodd Cyng Dr Simon Brooks y cyfarfod.

**229.12.21 CYNG ALWYN GRUFFYDD, Ffurflen Ymateb Cynllun Strategol y Gymraeg**  
**Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth** a'r Clerc i yrru'r ffurflen ymlaen. Mynegwyd diolch i'r Cyngorydd Alwyn Gruffydd am ei waith. Roedd y Cyng Dr Simon Brooks yn dymuno cofnodi ei fod wedi atal ei bleidlais.

**231.12.21 ANDREW BASFORD – CYFOETH NATURIOL CYMRU – Diweddariad perygl llifogydd**  
**Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth** a gwahodd Andrew Basford i annerch y Cyngor yn ystod cyarfod mis Chwefror yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

**232.12.21 Materion Ariannol :**

**Derbyniadau :**

Scottish Power	Ad-daliad	£	39.23
HSBC	Llog Banc Tachwedd 2021	£	00.29

**Biliau i'w talu :**

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Tachwedd 2021	£	49.10
3	Marian Roberts	Costau Teithio Tachwedd 2021	£	5.88
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Tachwedd 2021	£	639.17
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Tachwedd 2021	£	160.07
6	Marian Roberts	Inc Du a Lliw i'r printer	£	28.19
7	Marian Roberts	Ad-daliad am dalu bil Scottish Power 8.2.21	£	38.94
8	R J ELECTRICS	Gosod goleuadau Nadolig – ail anfoneb	£	168.00
9	GLASFRYN	3 coeden Nadolig	£	899.52
10	Y Ganolfan	Gwersi Cymraeg mis Tachwedd	£	120.00
11	Y Ganolfan	Cyfarfodydd mis Tachwedd	£	40.00

**Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth** ac awdurdodi'r taliadau uchod yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

( Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

### **233.12.21 Ceisiadau Cynllunio**

**Wedi ei dderbyn ar ddiwrnod y cyfarfod ac ar ôl cau'r Rhaglen**

**(a) Rhif Cais / Application No.: C21/1151/44/LL ( wedi ebostio 14.12.21 )**

Lleoliad : Tyddyn Adi Camping Site, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YW

Bwriad : Uwchraddio cyfleusterau yn cynnwys gosod 10 uned deithiol a 6 pod glampio yn lle 25 pabell awdurdodwyd gan Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon C12/1554/44/TC

**Penderfynwyd :- Gwrthwynebu'r cais oherwydd y rhesymau canlynol :-**

- Am fod 6 pod glampio yn nodwedd parhaol yn hytrach na'r 25 pabell tymhorol
- Am iddo fod yn ddatblygiad parhaol ac nid tymhorol / dros dro
- Am iddo fod yn newid defnydd y safle
- Oherwydd fod prinder llefydd i wersylla mewn pabell dylid cadw'r ddarpariaeth fel ag y mae
- Am fod gwersyllwyr pebyll yn defnyddio'r safle yn dymhorol ac yn gadael y safle ar ddiwedd y tymor gwyliau

Daeth y cyfarfod i ben am 21.15

Marian Roberts  
20.12.21